



Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

2020 dccc 3

Nodiadau Esboniadol

Children (Abolition of Defence of Reasonable Punishment) (Wales) Act 2020

2020 anaw 3

Explanatory Notes

£6.90

DEDDF PLANT (DIDDYMU AMDDIFFYNIAD COSB RESYMOL) (CYMRU) 2020

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2020 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 20 Mawrth 2020. Fe'u lluniwyd gan Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf.
2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf ac os ymddengys nad oes angen rhoi unrhyw esboniad neu sylw ar adran unigol, nis rhoddir.

CRYNODEB O'R DDEDDF

3. Mae'r Ddeddf yn diddymu amddiffyniad cosb resymol mewn perthynas â rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru; ac yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â diddymu'r amddiffyniad.

CYSYNIADAU ALLWEDDOL: YMOSOD A CHURO

4. Yn y gyfraith trosedd, ffurfiau ar droseddau corfforol yw ymosod a churo. Yn y gyfraith sifil, mae ymosod a churo yn gyfystyr â chamwedd, neu gamwri sifil: camwedd tresmasu yn erbyn y person.
5. Mae'r ymadrodd "ymosod" yn cael ei ddefnyddio yn gyffredin i ddisgrifio gweithredoedd sy'n ymwneud â defnyddio grym yn erbyn person. Ond mae gan y cysyniadau o "ymosod" a "curo" ystyron penodol a gwahanol yng nghyfraith Cymru a Lloegr.
6. At y dibenion hyn, ystyr "curo" yw defnyddio grym anghyfreithlon yn fwriadol neu'n ddi-hid yn erbyn corff person arall. Byddai hyn yn cynnwys oedolyn yn dyrnu oedolyn arall, er enghraifft. Ond gall hefyd gynnwys yr hyn a allai gael ei ystyried yn fân achosion o gyswllt corfforol, megis taro rhywun yn ysgafn ar yr ysgwydd. Byddai pa un a fyddai hyn yn gyfystyr â churo yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.
7. Mae "ymosod" yn digwydd pan fo un person yn achosi i berson arall ofni bod grym anghyfreithlon yn mynd i gael ei ddefnyddio ar unwaith (bygythiad wyneb yn wyneb gan oedolyn i ddyrnu oedolyn arall yn ystod anghytundeb, er enghraifft).
8. Mae amddiffyniad cosb resymol yn golygu y *gallai* gweithredoedd penodol sy'n gyfystyr â churo plentyn neu ymosod ar blentyn fod yn amddiffynadwy mewn achosion cyfreithiol ar y sail bod y gweithredoedd yn rhesymol - ac felly yn gyfreithlon.

CHILDREN (ABOLITION OF DEFENCE OF REASONABLE PUNISHMENT) (WALES) ACT 2020

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Children (Abolition of Defence of Reasonable Punishment) (Wales) Act which was passed by the National Assembly for Wales on 28 January 2020 and received Royal Assent on 20 March 2020. They have been prepared by the Department for Education and Public Services of the Welsh Government to assist the reader of the Act.
2. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it. They are not meant to be a comprehensive description of the Act and where an individual section does not seem to require any explanation or comment, none is given.

SUMMARY OF THE ACT

3. The Act abolishes the defence of reasonable punishment in relation to corporal punishment of a child taking place in Wales; and makes provision in connection with the defence's abolition.

KEY CONCEPTS: ASSAULT AND BATTERY

4. In criminal law, assault and battery are forms of offence against the person. In civil law, assault and battery constitute a tort, or civil wrong: the tort of trespass against the person.
5. The expression "assault" is commonly used to describe acts involving the application of force against a person. But the concepts of "assault" and "battery" have different, specific meanings in the law of England and Wales.
6. A "battery" for these purposes means the intentional or reckless application of unlawful force to the body of another person. This would include an adult punching another adult, for example. But a battery may also include what might be considered more minor incidences of physical contact, such as a pat on the shoulder. Whether this would constitute a battery would depend on the circumstances of the case.
7. An "assault" occurs where one person causes another person to apprehend the immediate infliction of unlawful force (a face-to-face threat by an adult to punch another adult during a disagreement, for example).
8. The defence of reasonable punishment makes certain acts constituting battery or assault of a child *potentially* defensible in legal proceedings on the basis that the acts were reasonable – and therefore lawful.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Adran 1 - Diddymu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin

9. Mae adran 1(1) o'r Ddeddf yn diddymu amddiffyniad cosb resymol mewn perthynas â rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru.
10. Bydd diddymu'r amddiffyniad yn unol ag adran 1(1) yn golygu na all unrhyw weithred o guro sy'n gyfystyr â rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru gael ei chyfiawnhau ar y sail ei bod yn gosb resymol. Bydd hyn yn wir mewn cysylltiad ag unrhyw achos sifil neu droseddol yn awdurdodaeth Cymru a Lloegr.
11. Mae diddymu'r amddiffyniad hefyd yn golygu na ellir cyfiawnhau unrhyw weithred o ymosod, pan fo plentyn yng Nghymru yn ofni bod cosb gorfforol yn mynd i gael ei defnyddio ar unwaith, drwy gyfeirio at yr amddiffyniad. (Gallai bygythiad i smacio plentyn fod yn un enghraifft). Mae hyn oherwydd bod cyfreithlondeb unrhyw ymosodiad sy'n cynnwys cosb gorfforol yn dibynnu ar argaeledd amddiffyniad cosb resymol.
12. Ystyr "cosb gorfforol" at ddibenion yr adran hon yw unrhyw guro a wneir fel cosb (mae'r diffiniad o'r ymadrodd yn ymddangos yn is-adran (4)).
13. Yn ymarferol, gallai hyn olygu smac a roddir fel cerydd i blentyn (pa un a yw ar ben ôl y plentyn, ar ei goesau neu ar ran arall o'r corff). Ond nid yw'r diffiniad wedi ei gyfyngu i smacio. Bydd achos pan fo rhiant yn ysgwyd plentyn, neu'n procio plentyn yn y frest neu'n tynnu ei wallt, fel cosb am gamymddygiad ymddangosiadol, er enghraifft, hefyd yn cael ei ddal.
14. (Efallai y bydd sefyllfaoedd mwy amwys eraill pan allai ymyriad corfforol penodol fod yn gyfystyr â churo a wneir fel cosb. Efallai fod y math hwn o achos yn cael ei egluro orau drwy ystyried y gwahaniaethau rhwng defnyddio grym sy'n wirioneddol angenrheidiol er mwyn brwsio dannedd plentyn anfodlon at ddibenion cynnal hylendid deintyddol da a brwsio dannedd mewn ffordd ymosodol y bwriedir iddo achosi poen i'r plentyn fel cosb am fethu â chydweithredu.)
15. Gallai diddymu amddiffyniad cosb resymol, heb fanylion pellach, agor y posibilrwydd i berson geisio amddiffyn defnyddio cosb gorfforol ar y sail ei bod yn dderbyniol yn gyffredinol yn ystod bywyd arferol. Er enghraifft, gallai person geisio dadlau ei bod yn dderbyniol smacio plentyn yn ystod bywyd bob dydd, yn union fel y mae'n dderbyniol brwsio dannedd plentyn. Mae'r geiriad yn is-adran (3) wedi ei gynnwys er mwyn osgoi'r posibilrwydd hwn.
16. (Mae'r gyfraith gyfredol sy'n gwahardd defnyddio cosb gorfforol mewn perthynas â disgyblion sy'n cael addysg wedi ei nodi yn adran 548 o Ddeddf Addysg 1996. Nid yw'r Ddeddf yn newid y sefyllfa hon.)
17. Ni fwriedir i ddiddymu'r amddiffyniad effeithio ar y gyfraith bresennol o ran curio ac ymosod mewn perthynas â defnyddio grym ac eithrio fel cosb.

COMMENTARY ON SECTIONS

Section 1 - Abolition of common law defence of reasonable punishment

9. Section 1(1) of the Act abolishes the defence of reasonable punishment in relation to corporal punishment of a child taking place in Wales.
10. Abolition of the defence in accordance with section 1(1) will mean that any act of battery constituting corporal punishment of a child which takes place in Wales will be unable to be justified on the ground that it was reasonable punishment. This will be the case in respect of any civil or criminal proceedings in the jurisdiction of England and Wales.
11. Abolition of the defence also means that any act of assault which involves the apprehension by a child in Wales of the immediate infliction of corporal punishment will be incapable of being justified by reference to the defence. (An example might be a threat to smack a child). This is because the lawfulness of any assault involving corporal punishment depends on the availability of a defence of reasonable punishment.
12. "Corporal punishment" for the purposes of this section means any battery carried out as a punishment (the definition of the expression appears in subsection (4)).
13. In practice this might typically involve a smack given as a telling-off to a child (whether on the child's bottom, legs or other part of the body). But the definition is not limited to smacking. A case where a parent shook a child, or poked a child in the chest or pulled their hair, as a punishment for perceived wrong-doing, for instance, will also be caught.
14. (There may be other, more ambiguous, instances where a particular physical intervention could amount to a battery carried out as a punishment. This kind of case is perhaps best illustrated by considering the differences between the use of force genuinely necessary to brush an unwilling child's teeth for the purposes of maintaining good dental hygiene and aggressive tooth brushing intended to cause a child pain as a punishment for failing to co-operate.)
15. Abolition of the defence of reasonable punishment, without more, might leave open the possibility of a person attempting to defend the use of corporal punishment on the basis of its being generally acceptable in the course of ordinary life. For instance, a person might seek to argue that it is acceptable in the course of everyday life to smack a child, just as it is acceptable to brush a child's teeth. The wording in subsection (3) has been included to avoid this possibility.
16. (The current law prohibiting the use of corporal punishment in relation to pupils receiving education is set out in section 548 of the Education Act 1996. This position is not changed by the Act.)
17. Abolition of the defence is not intended to affect the existing law of battery and assault in relation to the use of force otherwise than as a punishment.

18. Mae'r gyfraith gyffredin yn cydnabod ei bod yn angenrheidiol i oedolion ymgymryd ag ymyriadau corfforol penodol mewn perthynas â phlant, wrth arfer awdurdod rhiant. Mae hyn yn caniatáu defnyddio grym o dan amgylchiadau sy'n cynnwys rhyngweithiadau corfforol yr ystyrir yn gyffredinol eu bod yn dderbyniol, ac yn annadleuol, yn ystod bywyd arferol bob dydd.
19. Mae hyn yn golygu y caniateir ymyriadau corfforol penodol gan riant mewn perthynas â phlentyn hyd yn oed pan na chaniateid yr ymyriadau hynny, o angenrheidrwydd, yng nghyd-destun dau oedolyn. Nid yw cyfreithlondeb yr ymyriadau hyn yn deillio o fodolaeth amddiffyniad cosb resymol, gan na fwriedir iddynt fod yn gyfystyr â chosb gorfforol.
20. Mae diddymu amddiffyniad cosb resymol yn unol ag is-adran (1) yn golygu na fydd adran 58 o Ddeddf Plant 2004 yn berthnasol mwyach i guro plentyn neu ymosod ar blentyn sy'n digwydd yng Nghymru.
21. (Mae adran 58 yn cyfyngu ar argaeledd amddiffyniad cosb resymol. Yn rhinwedd adran 58, ni all yr amddiffyniad gael ei ddefnyddio i gyfiawnhau gweithred o guro pan fo'r niwed a achosir i blentyn yn gyfystyr â gwir niwed corfforol neu'n fwy na hynny (sef niwed y bernir ei fod yn fwy na niwed darfodol neu bitw: niwed sy'n mynd y tu hwnt i gochi croen plentyn dros dro), neu pan fo'r guro yn drosedd creulondeb wrth blentyn, o dan adran 1 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933.)
22. O ganlyniad, mae is-adran (5) yn gwneud mân ddiwygiadau i adran 58 er mwyn ei gwneud yn glir y bydd yn gymwys mewn perthynas â phethau a wneir yn Lloegr yn unig.

Adran 2 - Hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd bod adran 1 yn dod i rym

23. Mae adran 2 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau er mwyn hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddiddymu amddiffyniad cosb resymol. Bydd y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol cymryd camau yn ystod cyfnod o ddwy flynedd, sy'n ddechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol. Unwaith y bydd adran 1 - sy'n diddymu'r amddiffyniad - mewn grym, mae'r ddyletswydd yn yr adran hon yn peidio â bod yn gymwys.
24. Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu pa gamau i'w cymryd at ddibenion yr adran hon; ac efallai y bydd yn ofynnol cymryd camau gwahanol mewn perthynas â grwpiau gwahanol o bobl, er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol â rhieni, plant a'r cyhoedd ehangach.
25. Mae'n debygol y bydd y camau a gymerir i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn cynnwys llawer o fathau gwahanol o weithgarwch; gan gynnwys hysbysebu (er enghraifft ar y teledu, ar y radio, ar y rhyngwrwd a thrwy gyfryngau digidol eraill); a chyfathrebu â gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhieni a phlant er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod am y newid i'r gyfraith.

18. The common law acknowledges the necessity of certain physical interventions by adults in relation to children, in the exercise of parental authority. This permits the use of force in circumstances which involve physical interactions generally considered to be acceptable, and uncontroversial, in the ordinary course of everyday life.
19. This means that certain physical interventions by a parent in relation to a child are permissible even where, in the context of two adults, those interventions would not necessarily be permitted. The legality of these interventions does not derive from the existence of the defence of reasonable punishment as they are not intended to constitute corporal punishment.
20. Abolition of the defence of reasonable punishment in accordance with subsection (1) means that section 58 of the Children Act 2004 will no longer be relevant to battery or assault of a child which takes place in Wales.
21. (Section 58 limits the availability of the defence of reasonable punishment. By virtue of section 58 the defence cannot be used to justify an act of battery where the harm caused to a child constitutes or exceeds actual bodily harm (deemed to be harm which is more than transitory or trifling: harm which goes beyond temporary reddening of a child's skin), or where the battery amounts to an offence of child cruelty, under section 1 of the Children and Young Persons Act 1933.)
22. In consequence, subsection (5) makes minor amendments to section 58 to make it clear that it will apply in relation to things done in England only.

Section 2 – Promoting public awareness of the coming into force of section 1

23. Section 2 of the Act places a duty on the Welsh Ministers to take steps to promote public awareness of the abolition of the defence of reasonable punishment. The duty will require steps to be taken during a two-year period, starting with the day after the day the Act receives Royal Assent. Once section 1 – which abolishes the defence – is in force, the duty in this section ceases to apply.
24. It will be for the Welsh Ministers to determine what steps to take for the purposes of this section; and different steps may be required in relation to different groups of people, to ensure effective communication with parents, children and the wider public.
25. The steps taken to raise public awareness are likely to include many different strands of activity; including advertising (for example on television, radio, the internet and through other digital media); and communication with professionals who work with parents and children to ensure they know about the change to the law.

Adran 3 – Gofynion adrodd

26. Mae adran 3 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio dau adroddiad ar effaith diddymu'r amddiffyniad, eu cyhoeddi a'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd yr adroddiadau yn edrych ar gyfnod o dair blynedd yn y lle cyntaf, ac wedyn cyfnod o bum mlynedd, sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r amddiffyniad yn cael ei ddiddymu (fel y'i nodir yn adran 5).
27. Mae pob adroddiad yn debygol o ystyried, ymhlith pethau eraill, unrhyw effaith ar wasanaethau cyhoeddus; lefelau ymwybyddiaeth o ran y newid i'r gyfraith a wneir gan adran 1; ac unrhyw newidiadau yn agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol.
28. Mae'r adroddiadau yn debygol o wneud defnydd o weithgareddau monitro a gwerthuso y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â hwy; er enghraifft, arolygon a gynhelir er mwyn asesu agweddau tuag at y ddeddfwriaeth, a lefelau ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o ran y ddeddfwriaeth.

Adran 5 – Dod i rym

29. Mae'r adran hon yn ymdrin â phryd y daw adrannau'r Ddeddf hon i rym. Ac eithrio adran 1, daw darpariaethau'r Ddeddf, gan gynnwys yr adran hon, i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.
30. Daw adran 1, sy'n darparu ar gyfer diddymu'r amddiffyniad, i rym pan ddaw'r cyfnod o ddwy flynedd, sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol, i ben.

COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

31. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar: <http://senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IIId=24674>

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	25 Mawrth 2019
Cyfnod 1 – Dadl	17 Medi 2019
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau	24 Hydref 2019
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau	21 Ionawr 2020
Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad	28 Ionawr 2020
Y Cydsyniad Brenhinol	20 Mawrth 2020

Section 3 – Reporting requirements

26. Section 3 of the Act places a duty on the Welsh Ministers to prepare, publish and lay before the National Assembly for Wales two reports on the effect of the abolition of the defence. The reports will reflect on first a three and then a five-year period, starting with the day on which the defence is abolished (as set out in section 5).
27. Each report is likely to examine, among other things, any impact on public services; levels of awareness of the change to the law made by section 1; and any changes in public attitudes towards the physical punishment of children.
28. The reports are likely to draw on monitoring and evaluation activities carried out by the Welsh Government; for example, surveys carried out to assess attitudes towards the legislation, and levels of public awareness of the legislation.

Section 5 – Coming into force

29. This section deals with when the sections of this Act come into force. With the exception of section 1, the Act's provisions, including this section, will come into force on the day after the day the Act receives Royal Assent.
30. Section 1, which provides for the abolition of the defence, will come into force at the expiry of the period of two years, beginning with the day after the day on which the Act receives Royal Assent.

RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

31. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the National Assembly for Wales' website at: <http://senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IIId=24674>

Stage	Date
Introduced	25 March 2019
Stage 1 – Debate	17 September 2019
Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments	24 October 2019
Stage 3 Plenary – consideration of amendments	21 January 2020
Stage 4 Approved by the Assembly	28 January 2020
Royal Assent	20 March 2020

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.



a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), part of Williams Lea, ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea, and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

Fax orders: 0333 202 5080

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-12010-3



9 780348 120103